# Cyngor Cymuned **Bryncrug** Community Council

## Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Lun 16eg o Hydref 2017 am 7:00pm

Presennol: Cynghorydd Richard Evans (Cadeirydd)

Cynghorwyr: Bethan Lawton, Arwel Pierce, Alan H. Jones, Griffith Evan Thomas

1. Ymddiheuriadau: Cynghorwyr Peter Parker

2. Datgan diddordeb: Ni fu i'r un cynghorydd ddatgan buddiant

3. Derbyn Datganiad Derbyn Swydd gan Gynghorydd:

Croesawyd y Cynghorydd Griffith Evan Thomas i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

**PENDERFYNIAD:** Derbyniwyd ffurflen derbyn swydd gan y Cynghorydd Griffith Evan Thomas

4. Derbyn cofnodion 18 Medi 2017

**PENDERFYNIAD:**
I dderbyn y cofnodion, gyda'r Cynghorydd Bethan Lawton yn cynnig ar Cynghorydd Arwel Pierce yn eilio'r cynnig.

5. Cyfrifon i'w talu:

| | | | |
|---|---|---|---|
| B Gwilym | Cyflog | 101570 | £166.64 |
| Cyllid a Thollau | Yswiriant Gwladol | 101571 | £41.60 |
| B Gwilym | Teleffon | 101572 | £52.50 |
| B Gwilym | Deunydd swyddfa | 101573 | £14.80 |
| B Gwilym | Postio | 101573 | £7.25 |
| B Gwilym | Pafiliwn | 101573 | £5.00 |
| J.K.Jones Landscapers | Torri gwair | 101574 | £960.00 |
| Jones & Jones | Tacluso'r pentref | 101575 | £251.10 |

**PENDERFYNIAD:** I dalu'r anfonebau uchod.

6. Adolygu gwariant o Ebrill 2017 i Fedi 2017:

Darparwyd manylion gwariant ar ffurf taenlen Excel yn dangos y gwariant yn erbyn y gyllideb.

**PENDERFYNIAD:**
I dderbyn y wybodaeth parthed gwariant Ebrill-Medi 2017.
I gysylltu gyda Jones & Jones er mwyn glanhau gwydr plastig y ddwy gysgodfa bws gyda mop stêm.

7. Cyfethol aelodau:

Nid oedd yr un cais am gyfetholiad wedi ei dderbyn. Adroddwyd y byddai un aelod o'r cyhoedd yn mynychu cyfarfodydd y Cyngor yn y dyfodol cyn cyflwyno cais.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

8. Trafod creu ffilm hanesyddol sydd yn cyfweld trigolion Bryncrug:

Dim gwybodaeth newydd i adrodd.

Trafodwyd cynnwys Sibrydion Cymunedol ar rhesymau pam nad yw Bryncrug yn cael ei gynnwys.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

9. Cyngor Gwynedd - Cefnogaeth Gorfforaethol - Hunaniaith:

**PENDERFYNIAD:**
I dderbyn y wybodaeth.
I anfon y ddau becyn gwybodaeth ymlaen dau fusnes lleol, sef Meithrinfa Deryn Bach a Phwyllgor y Ganolfan.

10. Cyngor Gwynedd - Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol - Rhaglen Waith mis Hydref 2017:

**PENDERFYNIAD:**
I dderbyn y wybodaeth gan uned Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol.
I gysylltu gyda Uned Llwybrau Cyhoeddus er mwyn adrodd bod arwydd ar goll, Cil y Parc tuag at Faen Wen, sydd ar y ffordd tuag at Fferm Cynfal.

11. Llywodraeth Cymru - Adolygiad o'r Sector Cynghorau Cymuned a Thref:

Derbyniwyd holiadur gan Banel Adolygu Annibynnol sydd wedi ei sefydlu i ystyried rôl Cynghorau Cymuned a Thref yn y dyfodol. Gofynnwyd y cwestiynau canlynol:

1.Am beth y dylai Cynghorau Cymuned a Thref fod yn gyfrifol?

2.Sut y dylent weithredu?

3.Beth sy'n eu hatal rhag cyflawni dros y gymuned leol?

4.Sut y mae cynghorau'n sicrhau eu bod yn cynrychioli'r gymuned leol yn y ffordd orau bosibl?

**PENDERFYNIAD:** I ateb yr holiadur gyda'r atebion canlynol:
Cwestiwn 1. Gweithio gyda dymuniad y gymuned.
Cwestiwn 2. Yn unol â dymuniad lleol, cyn belled bod cyllid ar gael.
Cwestiwn 3. Diffyg cyllideb o fewn Cyngor Gwynedd i weithredu gofynion y pentref. Ymateb i faterion sydd yn codi gan y gymuned. Diffyg ymgysylltu gyda'r Cyngor Sir gan nad oes pwynt cyswllt. Diffyg diddordeb yn lleol ymysg y trigolion.
Cwestiwn 4. Mwy o gyfathrebu uniongyrchol yn lleol gyda'r trethdalwr.

12. Comisiwn Ffiniau a democratiaeth Leol Cymru - Ymgynghoriad - Canllaw i Brif Gynghorau ar Arolygon Cymunedol:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

13. Llywodraeth Cymru - Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth - Pont Newydd dros yr Afon Dyfi, Machynlleth:

Adroddwyd bod nifer o Gynghorwyr wedi mynychu un o'r sesiynau gwybodaeth yn y Plas, Machynlleth ar y 3ydd a 4ydd o Hydref 2017.

**PENDERFYNIAD:** I ymateb drwy ddatgan bod Cyngor Cymuned Bryncrug yn croesawu'r cynllun ond yn mynegi pryder ynglŷn â'r gyffordd rhwng yr A493 a'r A487, pryder y byddai damwain difrifol ar y gyffordd ac y dylid ystyried cylchfan. Hefyd, i fynegi pryder ynghylch sut y byddai dŵr yn cael ei rwystro rhag casglu o dan bont y Rheilffordd ac nad oedd digon o wybodaeth i egluro sut fyddai'r cynllun yn mynd i'r afael a'r broblem.

14. Cae Chwarae - Adroddiad:

Nodwyd y canlynol:
-Nid oedd trydan yn y Pafiliwn
-Dŵr ymlaen
-Ysbwriel mewn bag wedi ei adael gan y Clwb pêl-droed
-Dim PAT ar y tecell
-Nyten ar goll ar sedd siglen sydd agosaf i'r sietyn

**PENDERFYNIAD:**
I dderbyn y wybodaeth uchod.
I ofyn i'r clwb pêl-droed sicrhau bod y gyflenwad dŵr yn cael ei droi i ffwrdd dros y gaeaf.
Gofyn i'r Capel edrych ar y sietyn.

15. Cae Chwarae - gosod mast teleffon:

Adroddwyd bod Vodafone wedi canfod safle arall ar gyfer gosod mast teleffon ac felly ddim angen safle'r Cyngor.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth uchod.

16. Cae Chwarae - Biniau Ailgylchu:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn gwasanaeth Cyngor Gwynedd, sef casgliad wythnosol o 'sbwriel i'w ailgylchu am £44 y flwyddyn.

17. Cae Chwarae - Trosglwyddo'r cae i elusen:

**PENDERFYNIAD:** I wneud ymholiadau gyda'r Comisiwn Elusennau.

18. Cae Chwarae - Trefniadau torri gwair yn 2018:

**PENDERFYNIAD:** I gysylltu gyda'r canlynol er mwyn gofyn am ddyfynbris: Mr David Owen, Cyngor Gwynedd, Sean's Lawns a J.K.Jones Landscapers.

19. Adroddiad y Cynghorydd Sir:

Adroddwyd bod y Cynghorydd Bethan Lawton wedi ei hethol i'r Pwyllgor Safonau.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth gan y Cynghorydd Sir.

20. Unrhyw fater brys ym marn y Cadeirydd:

Adroddwyd bod Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri wedi bod mewn cyswllt gyda'r Clerc er mwyn ei hysbysu bod coed afal yn barod i'w plannu.

**PENDERFYNIAD:** I blannu'r coed afal yn y cae chwarae, gyda chymorth y Clwb Ieuenctid a Pharc Cenedlaethol Eryri.

Bu i'r cyfarfod ddirwyn i ben am 8:40pm

Llofnod y Cadeirydd ..........................................................